Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 45 Tanysgrifiad £3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd MAWRTH '92

## DIOLCH

**AR DDECHRAU'R unfed flwyddyn ar bymtheg o oed y cylchgrawn yma mae'r gair 'diolch' yn crynhoi'r cyfan sydd yna i'w ddweud mewn gwirionedd. Dim ond eich atgoffa, wrth gwrs, fod y pris o deirpunt y flwyddyn yn aros yn ddigyfnewid er bod y gelyn mawr — sef Swyddfa'r Post — gyda'r cyson godiadau yn gwneud cael dau pen llinyn ynghyd yn anoddach. Fe hwyluswch hynny o waith trwy gofio anfon eich tanysgrifiad, sy'n ddyledus yn awr, i'r Ysgrifennydd.**

**Ond mae'n bleser medru hysbysu fod cylchrediad *Y Casglwr* yn dal i godi. Pleser hefyd yw gweld enwau newydd yn rhestr y cyfranwyr ac ar ben hynny fe welwch fod yna enwau newydd ymysg yr hysbysebwyr hefyd sy'n awgrymu fod y fasnach lyfrau ail-law yn dal yn fyw ac iach yng Nghymru.**

### RICHARD H. LEWIS ar drywydd Hugh Williams — llai enwog na'i frawd

# Yr Arlunydd Cymreig a anghofiwyd

DDECHRAU Ionawr eleni collodd Cymdeithas Bob Owen un o'i haelodau selocaf pan fu farw Mrs Siân Williams, Llwyn Onn, Tynygongl, Ynys Môn, a hithau newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 96 mlwydd oed.

Bydd nifer o ddarllenwyr *Y Casglwr* yn cofio Siân Williams fel awdur y cyfrolau difyr hynny *Ebra Nhw* (1981) a *Mat Racs* (1983). Ychydig cyn y Nadolig cyhoeddwyd ei hatgofion ar gasét gan Amgueddfa Werin Cymru.

Ar gyfer y nodiadau hyn cofir am Siân Williams fel gweddw Dr Idwal Williams, mab yr Athro John Lloyd Williams, 1854-1945, y llysieuydd a'r cerddor. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yr oedd Siân Williams wedi sôn lawer gwaith fod yna frawd i'r Athro John Lloyd Williams oedd yn arlunydd a'i fod yn ystod ei yrfa wedi llunio poster a gafodd ei ddefnyddio i hysbysebu Bovril.

Robert a Jane Williams, Plas Isa (hen gartref William Salesbury), Llanrwst, oedd rhieni John Lloyd Williams ac ef oedd yr hynaf o saith o blant. Elizabeth, William, Hugh, Owen, Robert (Bob) a Richard (Dic) oedd enwau'r plant eraill.

Cofir am Elizabeth fel awdur y cyfrolau *Brethyn Cartref* (1951), *Siaced Fraith* (1952) a *Dirwyn Edafedd* (1953). Ceir cryn dipyn o hanes y teulu yn y cyfrolau hyn ac yn atgofion John Lloyd Williams a gyhoeddwyd mewn pedair cyfrol dan y teitl *Adgofion Tri Chwarter Canrif* (1941, 1942, 1944 a 1945).

Yno yng nghanol y cyfan ceir rhai cyfeiriadau at un Hugh a gafodd ei eni yn 1867, a symudodd at ei frawd a'i chwaer yng Ngarndolbenmaen tua 1879, a fu'n ddisgybl-athro yn ysgol elfennol Garndolbenmaen ac a aeth 'i'r Art School, South Kensington' cyn gorffen ei brentisiaeth 5 mlynedd fel disgybl-athro.

Dyma'r arlunydd o frawd i John Lloyd Williams y cyfeiriodd Siân Williams ato gymaint o weithiau yn ystod ei



*Darlun dychmygol o'r 'Sasiwn Gyntaf'. Y pedwerydd o'r chwith, Williams Pantycelyn.*

blynyddoedd olaf. Mae llun o Hugh Williams a'i chwaer a thri o frodyr, sef John, William a Bob, yn y gyfrol *Siaced Fraith* gan Elizabeth Williams.

* * * *

WEDI sefydlu pwy oedd yr arlunydd hwn y cam nesaf oedd ceisio dod o hyd i beth o'i hanes. Gyda'r wybodaeth Hugh Williams 1867-1955 yn fy llaw dyma fynd ar unwaith i'r catalog o arlunwyr yn Adran Darluniau a Mapiau Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac wele wybodaeth yno fod yna ym meddiant y Llyfrgell nifer o enghreifftiau o'i waith, sef portread ohono ef ei hun, portread o dad yng nghyfraith a mam yng nghyfraith ei chwaer, a phortreadau o Dewi Sant, Owain Gwynedd a Hywel Dda. Gweithiau gwreiddiol yw'r rhain.

Y mae gan y Llyfrgell atgynhyrchiadau o ddau lun o'i eiddo hefyd, sef portread o Gwenllian a'r llun dychmygol 'Y Sasiwn Gyntaf'. Ceir hanes llawn



*HUGH WILLIAMS — hunan bortread.*

y llun 'Y Sasiwn Gyntaf' gan Miss K. Monica Davies yng nghyfrol 6 (1982) o *Y Cylchgrawn Hanes* (Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd).

Darlun dychmygol o'r Sasiwn Unedig Gymreig-Seisnig a gynhaliwyd yn Watford ym mis Ionawr 1742-3 yw 'Y Sasiwn Gyntaf'. Y mae'r darlun yn portreadu, o'r chwith i'r dde, y cynghorwyr John Cennick, Joseph Humphreys, John Powell, y Parchedigion William Williams, Pantycelyn, George Whitefield, Daniel Rowland a Howell Harris. Mae'r darlun gwreiddiol yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth.

* * * *

FE YMDDENGYS felly fod Hugh Williams wedi gadael Garndolbenmaen a mynd i Lundain tua 1881 er mwyn dilyn cwrs arlunio yn yr Ysgol Gelf yn South Kensington.

Y mae traddodiad yn y teulu i Hugh lwyddo i gael llun o'i eiddo wedi ei arddangos yn y Royal Academy yn eithaf cynnar yn ei yrfa ac mae'n eithaf posibl mai 'The Wreath' a arddangoswyd gan un Hugh Williams o 120 Edith Road, West Kensington, oedd y llun hwnnw.

(parhad ar y dudalen ôl)